Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 19 Chwefror 2015 |
| Ein cyf: | HVT/2271/fgb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

Annwyl Jocelyn

## YMCHWILIAD I YSTYRIED PWERAU: OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr 2015.

Mae fy marn am y materion a godir gennych fel a ganlyn. Mae f‟atebion i‟ch cwestiynau ymgynghori cyffredinol (Atodiad A) i‟w gweld yn yr Atodiad i‟r llythyr hwn.

*(i) O ystyried fy rôl o ran goruchwylio Cronfa Gyfunol Cymru, a fyddai unrhyw faterion ariannol pwysig yn codi o gynigion yr Ombwdsmon pe bai Bil yn cael ei gyflwyno, yn enwedig o ran Rheol Sefydlog 26.6 (viii)?*

O ran Rheol Sefydlog 26.6 (viii), nid wyf yn credu y dylai fod yn angenrheidiol nac yn debygol i gynigion yr Ombwdsmon beri iddi fod yn ofynnol gwneud darpariaeth i godi tâl yn uniongyrchol ar y Gronfa. Fel y gwyddoch, mae‟r darpariaethau codi tâl uniongyrchol yn sicrhau bod modd talu arian heb fod angen cymeradwyaeth bellach gan y Cynulliad (ar ffurf cynigion cyllidebol), ac maent yn briodol i roi sicrwydd o ran talu, er enghraifft am indemniadau a chyflogau swyddi o bwys cyfansoddiadol (fel swydd y Llywydd). Nid yw‟n ymddangos bod cynigion yr Ombwdsmon yn gysylltiedig â mater o‟r fath. “Awdurdod Safonau Cwynion” yw un o‟r pum maes a gynigiwyd ganddo, ond deallaf mai brand ar gyfer y gwaith ar y polisi cwyno enghreifftiol arfaethedig yw hwn yn hytrach na chynnig i greu corff cyhoeddus newydd y gallai fod yn ofynnol gwneud darpariaeth ar ei gyfer o ran taliadau uniongyrchol.

Nodir fy marn am oblygiadau ariannol ehangach cynigion yr Ombwdsmon yn f‟atebion i‟ch cwestiynau ymgynghori yn Atodiad A (gweler yr Atodiad i‟r llythyr hwn).

*(ii) A oes gennyf unrhyw bryderon y gallai ymchwiliadau ‘ar ei liwt ei hun’ gan yr Ombwdsmon wrthdaro ag ymchwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol? Sut y gellir rheoli’r risg hon?*

Rwy‟n credu ei bod yn bosibl y gallent orgyffwrdd â‟m hastudiaethau gwerth am arian, ond nid wyf yn credu y byddai‟n risg fawr. Ymhellach, rwy‟n credu y byddai modd mynd ati‟n weddol rhwydd i reoli‟r risg yn effeithiol. Rwy‟n sicr y byddwn innau a‟r Ombwdsmon

yn parhau i drafod ein blaenraglenni gwaith pa un bynnag. I sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth, fodd bynnag, byddai‟n briodol cynnwys darpariaeth yn y ddeddfwriaeth sy‟n peri iddi fod yn ofynnol i‟r Ombwdsmon a‟r Archwilydd Cyffredinol ystyried eu safbwyntiau‟i gilydd cyn iddynt arfer y swyddogaethau perthnasol a chydweithio â‟i gilydd cyhyd ag y bo‟n angenrheidiol, yn eu tyb nhw, i arfer y swyddogaethau hynny‟n effeithiol.

*(iii)* *A oes angen rôl gydgysylltu rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru, yr Ombwdsmon a’r comisiynwyr annibynnol i hwyluso’u hymchwiliadau a’u hargymhellion i wella gwasanaethau cyhoeddus?*

Rwy‟n credu y byddai‟r gofynion yr wyf yn eu hawgrymu wrth ateb cwestiwn (ii) yn cydgysylltu‟r swyddogaethau‟n briodol. Nid wyf yn credu y dylai fod angen unrhyw ddarpariaeth arall i gydgysylltu‟r swyddogaethau, fel unigolyn penodedig sy‟n ysgwyddo rôl gydgysylltu benodol.

(iv) *A fyddai’n well cyflawni’r diwygiadau arfaethedig i rôl yr Ombwdsmon cyn diwygio’r sector cyhoeddus ehangach, neu ar ôl hynny?*

At ei gilydd, nid wyf yn credu bod unrhyw faterion o bwys o ran amseriad y diwygiadau, y naill ffordd na‟r llall. Fodd bynnag, rwy‟n credu y byddai ychydig yn fwy darbodus ac effeithlon ei gwneud yn ofynnol i‟r cyrff cyhoeddus fabwysiadu polisïau cwyno enghreifftiol pan fyddant yn llunio polisïau cwyno ar gyfer y cyrff wedi‟u huno, yn hytrach na chyflwyno gofynion o‟r fath cyn neu ar ôl i‟r cyrff ymuno â‟i gilydd. O wneud hynny, dylai helpu i sicrhau nad oes rhaid i‟r cyrff wneud dwy set o newidiadau i‟w gweithdrefnau cwyno.

Byddwn yn fodlon rhoi eglurhad pellach i‟r Pwyllgor pe bai hynny o gymorth iddo.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg:* *Atodiad A: Ymatebion i’r cwestiynau ymgynghori yn yr Atodiad*

## Ymatebion i'r Cwestiynau Ymgynghori yn yr Atodiad

1. *Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005?*

Ar sail ein gwaith o fonitro‟r materion sy‟n codi o archwilio‟r cyfrifon a‟n gwaith monitro ehangach at ddibenion cynllunio astudiaethau gwerth am arian, nid oes gennyf unrhyw bryderon penodol ynghylch diffyg effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth gyfredol.

### Ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun'

2. *Ar hyn o bryd, dim ond os caiff cwyn ei gwneud iddo y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater. Beth yw eich barn ar bwerau ymchwilio 'ar ei liwt ei hun', a fyddai'n galluogi'r Ombwdsmon i gychwyn ei ymchwiliadau ei hun heb orfod derbyn cwyn am fater yn gyntaf. Eglurwch eich ateb.*

Rwy‟n credu y byddai ymchwiliadau „ar ei liwt ei hun‟ yn sicrhau bod modd mynd i‟r afael â phroblemau systemig ehangach mewn modd cydlynol. Yn ogystal, rwy‟n credu y dylai pŵer o‟r fath sicrhau bod modd ymchwilio i faterion sy‟n amlwg yn peri problem er nad oes cwynion wedi dod i law. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i broblemau systemig sy‟n effeithio ar grwpiau penodol sy‟n dueddol o fod yn gyndyn o gwyno neu sy‟n methu â gwneud hynny.

Rwy‟n credu y dylid defnyddio pŵer o‟r fath i gyflawni ymchwiliadau o‟r fath yn gynnil, ond rwy‟n credu ei bod yn debygol iawn y bydd y cyfyngiadau o ran adnoddau a‟r camau a gymerir gan y Cynulliad i gadw llygad ar yr adnoddau yn sicrhau na chaiff y pŵer ei orddefnyddio.

3. *A oes gennych unrhyw bryderon y gallai pwerau ymchwilio 'ar ei liwt ei hun' arwain at orgyffwrdd cyfrifoldebau'r Ombwdsmon â chyfrifoldebau sefydliadau eraill? Sut y gellir rheoli hyn?*

Rwy‟n credu ei bod yn bosibl y gallai‟r ymchwiliadau hyn orgyffwrdd â‟m hastudiaethau gwerth am arian, ac o bosibl ag ymchwiliadau Gweinidogion Cymru (AGIC ac AGGCC) ac Estyn. Serch hynny, rwy‟n credu y byddai modd mynd ati‟n weddol rhwydd i reoli‟r risg yn effeithiol. Fel y dywedais yn fy llythyr, rwy‟n sicr y byddwn innau a‟r Ombwdsmon yn parhau i drafod ein blaenraglenni gwaith pa un bynnag. I sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth, fodd bynnag, byddai‟n briodol cynnwys darpariaeth yn y ddeddfwriaeth sy‟n peri iddi fod yn ofynnol i‟r Ombwdsmon a‟r Archwilydd Cyffredinol ystyried eu safbwyntiau‟i gilydd cyn iddynt arfer y swyddogaethau perthnasol a chydweithio â‟i gilydd cyhyd ag y bo‟n angenrheidiol, yn eu tyb nhw, i arfer y swyddogaethau hynny‟n effeithiol.

4. *A oes gennych farn ar y buddion a'r costau ariannol tebygol yn sgil rhoi pwerau ymchwilio 'ar ei liwt ei hun' i'r Ombwdsmon?*

Mae‟r amcangyfrif o‟r costau a geir ym mhapur yr Ombwdsmon yn realistig o ran defnyddio‟r pwerau i gyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn gynnil – un neu ddau ymchwiliad y flwyddyn, dyweder. O ran y buddion, nid yw‟n bosibl rhagfynegi‟r buddion

ariannol sy‟n debygol o ddeillio o bwerau o‟r fath. O ddefnyddio pwerau o‟r fath yn dda, byddwn yn gobeithio y byddai‟n arwain at leihau‟r lefelau camweinyddu gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynyddu bodlonrwydd y cyhoedd (a lleihau niwed a gofid i unigolion). Fodd bynnag, mae‟n anodd iawn mesur buddion o‟r fath, heb sôn am eu rhagfynegi.

## Cwynion ar lafar

5. *Ar hyn o bryd, dim ond cwynion ysgrifenedig y gall yr Ombwdsmon eu derbyn. Beth yw eich barn ar yr Ombwdsmon yn gallu derbyn cwynion ar lafar? Eglurwch eich ateb.*

Yn ôl yr hyn a ddeallaf i, nid dim ond cwynion ysgrifenedig y gall yr Ombwdsmon eu derbyn mewn gwirionedd. Mae adran 2(4) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn rhoi disgresiwn i‟r Ombwdsmon ymchwilio i gŵynion a wneir ar lafar, ac rwy‟n casglu bod yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵynion o‟r fath. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn deall bod rhaid i staff swyddfa‟r Ombwdsmon dreulio amser yn cofnodi cwynion a wneir ar lafar ac yn cadarnhau bod yr achwynydd am i‟r Ombwdsmon barhau â‟r ymchwiliad. Nid wyf yn sicr beth yw‟r ateb mwyaf priodol i‟r broblem honno; nid wyf yn sicr y byddai mynd ati i ddileu‟r gofyniad yn adran 5 o Ddeddf 2005 am i gŵynion gael eu cyflwyno‟n ysgrifenedig, ar ei ben ei hun, yn gwneud llawer o wahaniaeth, o gofio‟r disgresiwn i ymchwilio i gŵynion nad ydynt yn bodloni gofynion adran 5. Serch hynny, rwy‟n amau y dylai darpariaeth newydd sy‟n caniatáu i‟r Ombwdsmon gyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ei helpu i fynd i‟r afael â materion difrifol sy‟n cael eu codi ar lafar, ond nad ydynt yn cael eu cadarnhau.

6. *Pa fathau eraill o ohebiaeth ddylai fod yn dderbyniol (e.e. e-bost, ffurflen ar y we, negeseuon testun)?*

Yn ôl yr hyn a ddeallaf i, byddai‟r llysoedd yn barnu bod gohebiaeth drwy gyfrwng e-bost, ffurflen ar y we a neges destun yn ohebiaeth ysgrifenedig. Nid wyf yn credu y dylai fod yn angenrheidiol cyflwyno cwyn drwy gyfrwng llythyr ar bapur.

7. *A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Oherwydd nad wyf yn sicr sut y byddai darpariaeth benodol ar gyfer cwynion ar lafar yn gweithio, ni allaf fynegi barn am y buddion a‟r costau ariannol. Os gellir datrys y broblem o ran staff yn treulio amser yn cofnodi cwynion a wneir ar lafar nad ydynt wedi‟u cadarnhau, gall fod rhywfaint o arbedion ariannol oherwydd nad oes rhaid cyflawni gwaith y gellir ei ystyried yn ddiangen. Ond rwy‟n credu y bydd unrhyw ateb sy‟n ei gwneud yn haws i bobl gyflwyno cwynion ar lafar hefyd yn arwain at gynnydd yn nifer y cwynion, a chynnydd yn y costau hefyd. Fodd bynnag, rwy‟n deall y gallai unrhyw gamau i hwyluso‟r broses o gyflwyno cwynion ar lafar ac ymchwilio iddynt fod yn wirioneddol fuddiol i bobl sy‟n agored i niwed.

## Ymdrin â chwynion mewn gwasanaethau cyhoeddus

8. *Ar hyn o bryd, nid oes cysondeb yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ymdrin â chwynion. Mae mabwysiadu’r polisi cwynion enghreifftiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn wirfoddol. Beth yw eich barn ar yr Ombwdsmon yn paratoi*

*polisi cwynion enghreifftiol y byddai'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ei fabwysiadu? Eglurwch eich ateb.*

Rwy‟n credu bod y datblygiad arfaethedig hwn yn debygol o fod yn fuddiol ar y cyfan. Rwy‟n credu bod hyn yn debyg iawn i‟r canllawiau clir a roddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth i gyrff cyhoeddus ynghylch y gweithdrefnau adolygu Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn wedi helpu i ddileu rhai arferion di-fudd mewn rhai cyrff. O beri iddi fod yn ofynnol mabwysiadu polisïau enghreifftiol, dylai sicrhau bod modd i arferion da ac effeithlon ennill eu plwyf ar draws y cyrff cyhoeddus o ran ymdrin â chwynion. Dylai hyn arwain at wella effeithiolrwydd (ymdrin â chwynion yn well).

Gall fod yn ddefnyddiol darparu i‟r Ombwdsmon ganiatáu i gorff wyro oddi wrth bolisi enghreifftiol, er enghraifft, os nad yw gofynion gweithredol y corff yn cydweddu‟n dda â‟r polisi enghreifftiol. Yn ogystal, gall fod angen eithrio materion penodol o‟r polisi enghreifftiol gan fod rheoliadau eraill yn berthnasol iddynt, er enghraifft gweithdrefnau adolygu Rhyddid Gwybodaeth.

*9. A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Er nad yw‟r arbedion net cyffredinol yn debygol o fod yn fawr ac er y bydd yn anodd eu mesur, yn enwedig lle nad yw‟r staff sy‟n ymdrin â chwynion yn defnyddio system cofnodi amser, rwy‟n credu y dylai‟r camau i beri iddi fod yn ofynnol mabwysiadu polisïau enghreifftiol arwain at well darbodaeth, drwy sicrhau, ymhlith pethau eraill, nad oes rhaid i gyrff dreulio amser yn llunio‟u polisïau‟u hunain na gwario arian ar wneud hynny. Yn yr un modd, gall fod yn bosibl sicrhau rhywfaint o arbedion mewn achosion lle y mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio polisïau gwael.

## Awdurdodaeth yr Ombwdsmon

*10. Beth yw eich barn gyffredinol ar awdurdodaeth gyfredol yr Ombwdsmon?*

Yn gyffredinol, rwy‟n credu bod awdurdodaeth gyfredol yr Ombwdsmon yn briodol.

*11. Ar hyn o bryd, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i ofal iechyd preifat sydd wedi'i gomisiynu gan y GIG. Hoffai'r Ombwdsmon ehangu'r awdurdodaeth fel y gall ymchwilio i fater pan fo claf wedi derbyn gofal iechyd preifat (wedi'i ariannu gan y claf ac nid y GIG) ar y cyd â gofal iechyd cyhoeddus. Byddai hyn yn caniatáu i'r broses gwyno ddilyn y dinesydd yn hytrach na'r sector. Beth yw eich barn ar ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon fel hyn?*

Gallaf weld rhinweddau defnyddio dull sy‟n "dilyn y dinesydd" pan fo claf yn cael gofal iechyd preifat ar y cyd â gofal iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, rwy‟n credu y gallai fod yn eithaf anodd diffinio cysylltiadau mewn hanesion gofal mewn rhai achosion. Gall fod problemau eraill hefyd o ran diffinio cwmpas y gofal iechyd sy‟n rhan o awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, mae materion polisi cyhoeddus ehangach ar gael hefyd ac nid wyf yn credu ei bod yn briodol imi roi sylwadau arnynt.

*12. Sut y credwch y dylid ariannu'r gwaith o ymchwilio i gŵynion ynghylch gofal iechyd preifat? (Ymhlith y posibiliadau mae cyflwyno ardoll, codi tâl fesul achos neu beidio â chodi unrhyw dâl.)*

Materion polisi cyhoeddus yw’r rhain ac mae’n debyg nad yw’n briodol imi roi sylwadau arnynt.

*13. A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Eto, ni allaf roi sylwadau ar y materion hyn.

## Cysylltiadau â’r llysoedd

*14. Beth yw eich barn ar gael gwared ar y gwaharddiad statudol er mwyn caniatáu i’r Ombwdsmon ystyried achos sydd wedi cael ei adolygu gan lys, neu lle mae posibilrwydd y bydd yn cael ei adolygu gan lys, tribiwnlys neu broses arall? (h.y. byddai hyn yn rhoi cyfle i achwynwyr benderfynu pa lwybr sydd fwyaf priodol iddynt.)*

O ystyried y gost ychwanegol bosibl i’r pwrs cyhoeddus, byddwn yn pryderu pe bai’r camau i gael gwared ar y gwaharddiad statudol yn golygu bod achwynwyr nid yn unig yn gallu dewis llwybr unioni (h.y. y naill neu’r llall) ond yn gallu dilyn dau lwybr unioni. Ymhellach, oherwydd nad yw’r gwaharddiad statudol yn gymwys os yw’r Ombwdsmon yn fodlon, o dan amgylchiadau penodol, nad yw’n rhesymol disgwyl i’r unigolyn ddewis y llwybr unioni cywir, nid wyf yn sicr bod dadl gadarn dros gael gwared ar y gwaharddiad statudol o ran dileu rhwystrau sy’n atal pobl sy’n agored i niwed rhag ceisio unioni cam.

*15. Beth yw eich barn ar yr Ombwdsmon yn gallu cyfeirio achosion at y Llysoedd i gael penderfyniad ar bwynt cyfreithiol?*

Mewn egwyddor, mae’n ymddangos ei bod yn synhwyrol cyfeirio achosion at y Llysoedd i gael penderfyniad ar bwynt cyfreithiol, ond mae angen ystyried pwy ddylai ysgwyddo’r gost o gyfeirio achosion o’r fath.

*16. A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Mae f’atebion i gwestiynau 14 a 15 yn amlinellu fy mhryderon ynghylch costau newidiadau o’r fath.

## Materion eraill

*17. A oes gennych unrhyw enghreifftiau penodol lle gallai rhoi’r pwerau ychwanegol arfaethedig i’r Ombwdsmon fod wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau casgliad llwyddiannus i fater?*

Nac oes, ond nid yw hynny’n golygu nad wyf yn credu bod manteision i’r cynigion i ganiatáu i’r Ombwdsmon gyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac i gyflwyno polisi cwyno enghreifftiol.

*18. Mae Atodlen 3 o Ddeddf 2005 yn rhoi rhestr o awdurdodau sydd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion. A fyddech cystal â darparu manylion am unrhyw gyrff/sefydliadau eraill y dylid eu cynnwys yn y rhestr hon?*

Nid wyf yn gwybod am unrhyw hepgoriadau o bwys.

*19. Pe byddai'r Ombwdsmon yn cael rhagor o bwerau mewn Bil/Deddf newydd, pa bryd y dylid gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth hon?*

Byddai‟n ddefnyddiol cyflawni adolygiad sylfaenol cyn cychwyn y Ddeddf newydd. Ar ôl hynny, o ystyried yr amserlen ar gyfer cyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a llunio polisi cwyno enghreifftiol, a chaniatáu iddynt gael effaith, byddai‟n briodol cyflawni gwerthusiad o leiaf dair i bum mlynedd ar ôl cychwyn y Ddeddf, a hynny os mai bwriad y gwerthusiad yw pwyso a mesur effeithiolrwydd. Fodd bynnag, os mai unig ddiben y gwerthusiad yw asesu pa un a yw‟r darpariaethau‟n ateb y diben o ran galluogi‟r prosesau i gychwyn (sy‟n ffocws gweddol gul), byddai modd ei gyflawni flwyddyn neu ddwy ar ôl cychwyn y Ddeddf.

*20. Pa ganlyniadau anfwriadol a allai ddigwydd o ganlyniad i droi'r darpariaethau hyn yn ddeddfwriaeth, a pha gamau y gellid eu cymryd i ymdrin â'r canlyniadau hyn?*

Er imi gyfeirio ato uchod, byddwn yn ailadrodd y gall fod canlyniadau anfwriadol o ran costau ynghlwm wrth y cynnig i wneud darpariaeth benodol ar gyfer cwynion ar lafar. Yn yr un modd, gall fod canlyniadau anfwriadol o ran costau ynghlwm wrth y cynnig i gael gwared ar y gwaharddiad statudol ar faterion y byddai modd i‟r Llysoedd eu hystyried.

*21. Pa ffactorau y dylid eu mesur wrth lunio'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon os daw'n gyfraith?*

Byddai angen imi gyflawni gwaith ymchwil estynedig i ateb y cwestiwn hwn yn iawn.

*22. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn:*

- *meysydd yn cael eu cynnwys yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon dros gyfnod – a ddylid ystyried cynnwys cyrff eraill yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon;*

Byddai ystyriaeth o‟r fath yn briodol ar gyfer unrhyw sefydliad newydd sy‟n darparu gwasanaeth, ond nid, fwy na thebyg, ar gyfer cyrff adolygu newydd (e.e. swydd Comisiynydd Cenedlaethau‟r Dyfodol sydd yn yr arfaeth).

- *argymhellion a chanfyddiadau – a ddylai argymhellion yr Ombwdsmon i gyrff cyhoeddus fod yn orfodol. Byddai hyn yn golygu na chaiff cyrff benderfynu gwrthod y canfyddiadau;*

Yn fy marn i, gallai argymhellion gorfodol beri anhawster. Gallent beri dryswch o ran atebolrwydd swyddogion gweithredol cyrff cyhoeddus neu leihau eu hatebolrwydd. Mae‟n ymddangos bod darpariaethau presennol y Ddeddf o ran adrodd am ddiffyg gweithredu a‟i ardystio yn briodol.

- *amddiffyn y teitl – bu gormodedd o gynlluniau yn galw eu hunain yn ombwdsmyn, yn aml heb fodloni meini prawf allweddol y cysyniad, fel annibyniaeth ar y rhai mewn awdurdodaeth a bod yn rhydd i'r achwynydd. A ddylai unrhyw un sy'n bwriadu defnyddio'r teitl ombwdsmon gael cymeradwyaeth yr Ombwdsmon;*

Mae‟n ymddangos i mi fod hyn yn synhwyrol i ochel rhag camddefnydd. Mae rheoliadau eisoes ar waith i warchod teitlau fel "llywodraeth" ac "archwilydd cyffredinol" (gall fod yn

briodol gofyn iddo gael ei gynnwys yn Atodlen 4 i *Reoliadau Cwmnïau, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnesau (Enwau a Datgeliadau Masnachu) 2015).*

- *cwynion o ran cod ymddygiad – byddai'n well gan yr Ombwdsmon ganolbwyntio ar yr elfen o'i waith sy'n ymdrin â defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau, yn hytrach na phenderfyniadau awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned. Er bod gweithdrefnau datrysiad lleol yn bodoli a'u bod wedi cael eu mabwysiadu gan 22 o awdurdodau lleol, ceir amrywiad wrth ymarfer.*

Gallaf weld rhinweddau‟r dewis hwnnw, ond rwy‟n credu bod angen ymchwilio i gŵynion difrifol o ran cod ymddygiad.

*23. A oes gennych farn ar unrhyw agwedd ar ddiwygiadau arfaethedig i'r sector cyhoeddus neu ddiwygiadau yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar rôl yr Ombwdsmon?*

Rwy‟n credu ei bod yn debygol y bydd llwyth gwaith achos yr Ombwdsmon yn cynyddu, o leiaf yn y tymor byr i‟r tymor canolig, yng ngoleuni‟r diwygiadau arfaethedig i‟r sector cyhoeddus a‟r cyni parhaus – gall fod yn anodd gwahanu effaith y diwygiadau arfaethedig ac effaith y cyni. Yn yr un modd, bydd nifer y cwynion i‟r cyrff cyhoeddus hefyd yn cynyddu yng ngoleuni‟r diwygiadau arfaethedig i‟r sector cyhoeddus a‟r cyni parhaus. Gallai‟r pwynt diwethaf hwn ategu‟r ddadl dros ganiatáu i‟r Ombwdsmon lunio polisi cwyno enghreifftiol.

*24. A oes gennych unrhyw faterion neu bryderon eraill ynghylch y Ddeddf bresennol, ac a oes unrhyw feysydd eraill y mae angen eu diwygio neu eu diweddaru?*

Ddim ar hyn o bryd.

***19 Chwefror 2015***